Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Little Stars (Deeside) Ltd**
**Uned 69 Third Avenue**
**Parth 2**
**Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy**
**Sir y Fflint**
**CH5 2LA**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 10/04/2017**

## Cyd-destun

Mae Little Stars Deeside Ltd yn feithrinfa ddydd sydd wedi'i lleoli ar Ystâd Ddiwydiannol Glannau Dyfrdwy yn awdurdod lleol Sir y Fflint. Mae'r feithrinfa wedi'i chofrestru ar gyfer hyd at 75 o blant o dan wyth oed ac mae ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, o 7.30 am tan 6.00 pm. Roedd 42 o blant ar y gofrestr yn ystod yr arolygiad. Mae 17 o blant tair oed yn derbyn cyllid y blynyddoedd cynnar gan yr awdurdod lleol. Fe wnaeth arweinydd y dosbarth cyn-ysgol ymgymryd â'r rôl ym mis Gorffennaf 2016, gan gyflenwi dros gyfnod mamolaeth, a chaiff gymorth tri aelod staff arall. Mae gan bob un ohonynt gymwysterau priodol y blynyddoedd cynnar a phrofiad addas o weithio gyda phlant ifanc.

Mae'r rhan fwyaf o blant sy'n mynychu'r feithrinfa yn dod o leoliadau mor bell i ffwrdd â Manceinion i'r dwyrain a'r Fflint i'r gorllewin. Saesneg yw iaith y cartref i'r rhan fwyaf ohonynt ac mae nifer bach iawn yn dod o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad. Nododd y lleoliad mai nifer bach iawn o blant ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n mynychu ar hyn o bryd.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn Ionawr 2015 a chan Estyn yn Nhachwedd 2010.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau gwneud marciau da mewn amrywiaeth o gyd-destunau, dan do ac yn yr awyr agored
- Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos medrau rhifedd cymwys wrth iddynt gyfrif y tu hwnt i ddeg o'r cof a chyfrif gwrthrychau'n gywir i bump o leiaf
- Mae bron pob un o'r plant yn cyrraedd y lleoliad yn llawn brwdfrydedd a diddordeb
- Mae bron pob un ohonynt yn ymddwyn yn dda ac yn deall pwysigrwydd rhannu a charedigrwydd
- Mae bron pob un o'r plant yn ymhél â'u dysgu yn dda
- Mae ymarferwyr yn darparu amrywiaeth eang o brofiadau dysgu uniongyrchol diddorol ac ysgogol sy'n hybu dysgu'r Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus
- Mae'r lleoliad yn cynnig amgylchedd gofalgar ac anogol ac mae'n hybu lles plant yn effeithiol
- Mae bron pob un o'r plant yn cydweithredu'n dda
- Mae ymarferwyr yn rhoi cymorth gwerthfawr ac yn herio plant yn effeithiol

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae'r perchennog a rheolwr y feithrinfa yn rhoi cyfeiriad a chymorth clir, gyda ffocws cadarn ar sicrhau bod yr holl blant yn gwneud cynnydd llwyddiannus mewn amgylchedd gofalgar a hapus
- Mae arweinydd yr ystafell wedi sefydlu tîm cryf o ymarferwyr sy'n cydweithio'n effeithiol i wella addysgu a'r ddarpariaeth
- Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth glir o'r meysydd y mae angen i'r lleoliad eu gwella
- Mae cyfarfodydd rheolaidd yn galluogi staff i gynllunio gyda'i gilydd a chadw cofnodion y plant yn gyfredol
- Mae system glir o reoli perfformiad, gyda thargedau priodol ar gyfer gwella unigol
- Mae ymarferwyr yn manteisio ar hyfforddiant yn rheolaidd fel bod ei gwybodaeth am ddatblygiadau diweddar yn y Cyfnod Sylfaen yn gyfredol
- Mae proses hunanarfarnu'r lleoliad yn adlewyrchiad cywir o'i gryfderau a'i feysydd i'w gwella
- Mae gan y lleoliad ystod dda o bartneriaethau buddiol sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at gynnydd a lles plant

## Argymhellion

A1 Gwella medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) plant

A2 Sicrhau bod gweithgareddau sy’n cael eu cynllunio yn cynnig her ddigonol i blant mwy abl

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad, mae'r rhan fwyaf o blant yn cyflawni safonau da ac yn gwneud cynnydd gwerth chweil o'u mannau cychwyn. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwrando'n astud ac yn ymateb yn frwdfrydig wrth weithio gydag oedolion. Maent yn mwynhau gwrando ar storïau a dangosant eu diddordeb wrth ymuno ag adrannau cyfarwydd ac ymateb yn briodol i gwestiynau. Mae bron pob un o'r plant yn mwynhau gwneud marciau, gan ddefnyddio amrywiaeth eang o wahanol ddeunyddiau ac offer. Er enghraifft, gwnânt batrymau diddorol mewn ewyn eillio ac maent yn arbrofi yn yr awyr agored, gan gymysgu gwahanol liwiau paent. Mae bron pob un ohonynt yn datblygu eu medrau siarad a gwrando yn dda. Wrth drafod pwy fydd yn cael y cardiau Sant Ffolant a wnânt, maent yn aros eu tro i ddal Lola'r teigr wrth siarad. Mae pob un ohonynt yn gwybod bod angen iddynt fod yn dawel a gwrando pan fydd rhywun arall yn siarad. Mae plant hŷn yn dechrau ysgrifennu eu henw eu hunain ar eu gwaith a chofnodi mai eu tro nhw fel 'helpwr heddiw' yw hi am y diwrnod.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn cyfrif yn hyderus y tu hwnt i ddeg ac yn enwi siapiau syml fel cylchoedd, sgwariau a thrionglau. Defnyddiant iaith fathemategol yn hyderus yn ystod eu chwarae, pan fyddant yn cymharu pwy sydd â'r tŵr blociau uchaf ac a yw tryc yn y bwrdd tywod yn llawn neu'n wag. Fodd bynnag, nid yw defnydd TGCh plant na'u dealltwriaeth ohoni wedi'u datblygu'n ddigonol.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu dealltwriaeth briodol o'r Gymraeg. Dilynant gyfarwyddiadau sylfaenol yn y Gymraeg ac ymatebant yn briodol gan ddefnyddio geiriau ac ymadroddion syml. Mae llawer o blant yn datblygu'u medrau meddwl yn llwyddiannus, er enghraifft gwasgu'r coesau ar bry cop wedi'i wneud o does chwarae pan ofynnir iddynt sut byddant yn aros yn eu lle.

Mae bron pob un ohonynt yn datblygu medrau corfforol buddiol wrth iddynt redeg, reidio beiciau a sgwteri, a chwarae yn yr ardal awyr agored anturus. Datblygant eu medrau echddygol manwl yn llwyddiannus trwy amrywiaeth gynhwysfawr o weithgareddau, gan gynnwys torri a gludo i greu lluniau a gwneud marciau a phatrymau mewn ewyn eillio.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r plant yn cyrraedd y lleoliad yn hapus ac maent yn awyddus i ymuno â gweithgareddau'r dydd. Maent yn gyfarwydd â'r arferion a symudant yn hyderus rhwng gweithgareddau wedi'u trefnu gan oedolion a gweithgareddau wedi'u harwain gan blant. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn canolbwyntio'n dda am gyfnodau estynedig, er enghraifft wrth adeiladu tai ar gyfer gwahanol anifeiliaid mewn sw dan do ac wrth greu cwrs antur o deiars ac estyll yn yr ardal ddysgu awyr agored.

Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda.  Maent yn cydweithio'n hawdd â'i gilydd ac yn deall yr angen i rannu ac aros eu tro, er enghraifft pan fyddant yn chwythu swigod tu allan i blant eraill eu byrstio.  Amser brecwast, deallant fod angen iddynt olchi eu dwylo cyn bwyta a dangosant fedrau cymdeithasol effeithiol wrth iddynt eistedd a sgwrsio gyda'u ffrindiau.

Mae paratoi i fynd tu allan yn ystod misoedd y gaeaf yn galluogi'r rhan fwyaf o'r plant i ddatblygu medrau annibynnol da.  Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dod o hyd i'w hambwrdd storio eu hunain, yn gwisgo'u hesgidiau a'u cotiau eu hunain ac yn sefyll yn dawel mewn llinell pan fyddant yn barod.  Mae bron pob un o'r plant yn dangos ymdeimlad datblygol o gyfrifoldeb wrth helpu i dacluso ar ddiwedd sesiwn.

| **Cwestiwn Allweddol 2:  Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu:  Da**

Mae ymarferwyr yn cynllunio amrywiaeth ysgogol o weithgareddau diddorol a deniadol ar draws bron pob un o feysydd dysgu'r Cyfnod Sylfaen.  Mae cynllunio ar gyfer datblygu medrau meddwl plant yn dda.  Er enghraifft, mae plant yn ymchwilio i b'un ai a yw gwrthrychau yn wlyb neu'n sych ac yn dysgu bod dŵr yn troi'n iâ pan fydd hi'n oer iawn.  O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd gwerth chweil yn eu dysgu.

Mae ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol i ymgorffori proses systematig o gynllunio sy'n ystyried datblygiad medrau ac anghenion plant unigol yn briodol.  Mae cynllunio ar gyfer datblygiad medrau llythrennedd a rhifedd plant yn hyblyg ac mae'n ystyried diddordebau plant yn dda.  Cynhaliodd y lleoliad ddiwrnod uwch-arwyr mewn ymateb i ddiddordeb grŵp o blant hŷn.  Fe wnaeth staff a phlant wisgo i fyny am y diwrnod a chynllunio llawer o weithgareddau cyffrous yn gysylltiedig â'r thema.  Fodd bynnag, nid yw cynllunio bob amser yn herio plant sy'n fwy abl yn ddigon da yn gyson.

Gwneir defnydd effeithiol o'r gymuned leol i ehangu profiadau dysgu plant.  Mae ymarferwyr yn datblygu dealltwriaeth plant o'r byd o'u cwmpas yn llwyddiannus trwy wahodd ymwelwyr, fel ymladdwyr tân, yr heddlu a gweithwyr ambiwlans, i siarad am eu swyddi.  Mae plant yn datblygu dealltwriaeth werthfawr o bwysigrwydd gofalu am bethau byw trwy blannu yn yr ardal awyr agored a gofalu am y pysgod yn eu hystafell ddosbarth.

Mae ymarferwyr yn hybu medrau Cymraeg plant yn gyson dda.  Defnyddiant y Gymraeg yn effeithiol yn ystod sesiynau grŵp ac anogant y plant i ymateb yn Gymraeg yn briodol.  Mae plant yn datblygu'u hymwybyddiaeth o ddiwylliant a thraddodiadau Cymru yn llwyddiannus pan fyddant yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi trwy wisgo gwisg genedlaethol a choginio a blasu bwyd Cymreig.

**Addysgu:  Da**

Mae gan yr holl ymarferwyr wybodaeth a dealltwriaeth sicr o ofynion y Cyfnod Sylfaen.  Maent yn gwerthfawrogi pwysigrwydd cyflwyno amrywiaeth eang o gyfleoedd i blant ddysgu trwy chwarae a chyfranogiad gweithgar.  Rhoddant gymorth buddiol i'r plant wrth eu hannog i archwilio ac ymchwilio drostynt eu hunain.  Mae'r holl ymarferwyr yn fodelau da o ran iaith ac maent yn gwneud defnydd da o storïau, caneuon a rhigymau i gynnal diddordeb plant a chyfoethogi eu geirfa.

Mae ymarferwyr yn rheoli ymddygiad yn dda ac yn cynnal diddordeb plant trwy sicrhau nad yw tasgau yn rhy hir a defnyddiant gwestiynu a chanmol effeithiol yn dda. Defnyddiant yr ardal awyr agored yn dda yn gyson i annog plant i archwilio ac arbrofi â'r amrywiaeth helaeth o ddeunyddiau naturiol a deunyddiau gwneud sydd ar gael. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o blant yn hapus i ymgymryd â phrofiadau dysgu newydd.

Mae cofnodi arsylwadau unigolion a grwpiau o blant yn rheolaidd yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i ymarferwyr allu nodi cryfderau a chamau dysgu nesaf plant. Mae ymarferwyr yn defnyddio'r asesiadau hyn i lywio cynllunio at y dyfodol yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio ar gyfer plant sy'n fwy abl yn ddigon heriol bob amser. Mae gwahoddiad agored i rieni drafod gwybodaeth am gynnydd eu plant ar unrhyw adeg. Ar ddiwedd y flwyddyn, mae'r lleoliad yn gwahodd rhieni i gyfarfod â gweithiwr allweddol eu plentyn i drafod cynnydd y plentyn yn fanwl ac i gael adroddiad ysgrifenedig addysgiadol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan y lleoliad amrywiaeth effeithiol o bolisïau a gweithdrefnau sy'n cefnogi iechyd a lles plant yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn deall yr angen i olchi'u dwylo ar ôl defnyddio'r toiled a chyn coginio a bwyta bwyd. Mae'r lleoliad yn darparu prydau bwyd a byrbrydau drwy gydol y diwrnod, gan ddilyn bwydlen amrywiol sy'n seiliedig ar egwyddorion bwyta'n iach.

Caiff plant fynd allan i'r ardal awyr agored am gyfnodau buddiol bob dydd a chânt eu hannog i gymryd rhan mewn ymarfer corff egnïol. Mae defnyddio'r awyr agored yn rheolaidd ac ymweliadau achlysurol â'r tir y tu ôl i'r lleoliad dros y gwahanol dymhorau yn cyfrannu'n dda at ddatblygu ymdeimlad plant o ryfeddod am y byd y maent yn byw ynddo. Mae trefniadau addas ar waith i blant ddysgu am bwysigrwydd ailgylchu deunyddiau, fel papur a phlastig.

Mae gweithdrefnau sefydledig ar waith i gefnogi plant ag anghenion ychwanegol. Mae perchennog y feithrinfa yn goruchwylio'r ddarpariaeth hon yn effeithiol ac yn cynnig mynediad at rwydwaith ddefnyddiol o asiantaethau allanol i gynnig cymorth a chyngor ychwanegol pan fydd angen. Mae dathliadau fel y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a gwyliau seintiau gwledydd y Deyrnas Unedig yn annog ymwybyddiaeth plant o ddiwylliannau eraill yn dda.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle y gall yr holl blant fanteisio'n gyfartal ar adnoddau a chyfleoedd dysgu. Mae ymarferwyr â chymwysterau addas yn cydweithio'n llwyddiannus ac yn adnabod y plant yn dda. Maent yn creu amgylchedd cynnes a chroesawgar ac, o ganlyniad, mae plant yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad. Mae'r adeilad a'r ardaloedd awyr agored yn lân, wedi'u cynnal a chadw'n dda ac yn ddiogel.

Mae ymarferwyr yn defnyddio'r lle sydd ar gael yn dda i greu amgylchedd dysgu deniadol, gyda digon o adnoddau ynddo, ar gyfer y plant. Mae'r ystafell yn llachar a chroesawgar ac mae'n hawdd i'r plant gael at yr adnoddau helaeth, ansawdd da. Mae arddangosfeydd deniadol o waith diweddar y plant yn adlewyrchu gweithgareddau dysgu yn dda. Mae'r ardal awyr agored yn gryfder gwirioneddol yn y lleoliad.

Mae gwahanol feysydd dysgu yn galluogi plant i ehangu eu dealltwriaeth o'r byd yn effeithiol trwy ymchwilio ac archwilio yn annibynnol ac mewn grwpiau. Er enghraifft, caiff plant ddewis cloddio neu blannu. Mae amrywiaeth o deiars, estyll a chewyll, y mae plant yn symud o'u cwmpas yn rhydd, yn creu strwythurau neu gyrsiau antur cyffrous. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnig cyfleoedd buddiol i blant ddysgu am gymryd risgiau a rheoli eu diogelwch eu hunain o fewn amgylchedd diogel.

| | | |
|---|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3:** | **Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae perchennog a rheolwr y feithrinfa yn goruchwylio gwaith yr ystafell cyn-ysgol yn dda. Mae ganddynt ddealltwriaeth sicr o ofynion y Cyfnod Sylfaen a darparant gymorth cadarn a her briodol i'r tîm a sefydlwyd yn gymharol ddiweddar.

Mae arweinydd yr ystafell yn rheoli'r lleoliad yn llwyddiannus ac yn gweithio'n agos gyda'i thîm i sicrhau bod yr holl blant yn gwneud cynnydd gwerth chweil mewn amgylchedd gofalgar a hapus. Mae gan yr holl staff ddisgrifiadau swydd clir a chyfredol a deallant eu rolau a'u cyfrifoldebau'n glir. Maent yn cydweithio'n dda ac yn rhannu gweledigaeth a chyfres o werthoedd, ac yn cefnogi ei gilydd yn gadarnhaol trwy gydol y sesiynau. Mae'r tîm presennol yn gymharol newydd ac wedi cydweithio'n agos i sefydlu systemau newydd o gynllunio ac asesu cynnydd plant. O ganlyniad, maent yn datblygu dealltwriaeth gynyddol o anghenion penodol plant unigol ac maent yn dechrau cynllunio gweithgareddau i fodloni'r anghenion hynny yn effeithiol.

Mae'r rhaglen sefydledig o werthusiadau staff yn galluogi rheolwyr a staff i fyfyrio ar eu perfformiad ac i gynllunio hyfforddiant a chymorth priodol.

Mae'r lleoliad yn gweithredu blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn dda. Mae'r ardal awyr agored yn cynnig cyfleoedd da ar gyfer dysgu annibynnol ac mae arweinwyr yn canolbwyntio ar ddatblygu dealltwriaeth plant o gadw'n iach yn llwyddiannus.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae arweinwyr yn adnabod y lleoliad yn dda ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella. Mae'r broses hunanarfarnu yn rhan sefydledig o fywyd a gwaith y lleoliad. Mae arweinwyr yn nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu yn glir, gyda chymorth pwrpasol gan athro cymorth yr awdurdod lleol. Defnyddiant y wybodaeth hon yn llwyddiannus i greu cynlluniau gweithredu defnyddiol. Mae'r rhain yn cynnwys targedau penodol ar gyfer gwella a meini prawf llwyddiant clir y gallant eu defnyddio i arfarnu cynnydd.

Mae system glir ar waith i adolygu cynnydd tuag at fodloni'r targedau yn y cynllun gweithredu presennol yn rheolaidd ac mae'r lleoliad yn gwneud cynnydd da tuag at gyflawni ei dargedau presennol. Er enghraifft, mae pob ymarferwr erbyn hyn yn dilyn system newydd i gofnodi cynnydd plant, sy'n eu galluogi i nodi'r camau nesaf mewn dysgu yn fwy pwrpasol. Hefyd yn ddiweddar, maent wedi gwella'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad creadigol trwy osod offerynnau cerdd y tu allan ac yn yr ystafell ddosbarth. O ganlyniad, mae diddordeb plant wedi cynyddu a gallant gael at yr offer yn fwy annibynnol.

Mae arweinwyr yn gweithio'n dda gydag asiantaethau eraill, fel athro cymorth yr awdurdod lleol a Chymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd Cymru (NDNA), i wella'r ddarpariaeth a chodi safonau. Mae ymarferwyr yn ymweld â lleoliadau eraill yn rheolaidd i gael syniadau am ddatblygu'r ardal awyr agored. Mae'r holl staff yn croesawu syniadau newydd ac maent yn awyddus i'w rhoi ar waith i wella profiadau dysgu plant yn y lleoliad.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y lleoliad amrywiaeth eang o bartneriaethau buddiol sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at gynnydd a lles plant. Mae ymarferwyr yn gweithio'n agos gyda rhieni ac yn sicrhau eu bod yn cael gwybodaeth ddefnyddiol am waith y lleoliad trwy gylchlythyron misol, trwy ardal i rieni ar ei wefan a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol. Mae cylchlythyron yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol am yr holl grwpiau oedran yn y feithrinfa ac mae taflenni 'gweithgareddau gartref' yn rhoi pethau penodol i rieni allu eu gwneud gyda'u plant i gefnogi ac ymestyn y gweithgareddau yn y lleoliad. Cynhelir nosweithiau rhieni yn flynyddol a chaiff rhieni eu gwahodd i drefnu cyfarfodydd eraill yn ystod y flwyddyn, os byddant yn dymuno gwneud hynny. Mae ymarferwyr yn yr ystafell cyn-ysgol yn rhannu Proffiliau Cyfnod Sylfaen y plant gyda'u rhieni, gan roi cipolwg buddiol iddynt ar gynnydd eu plentyn.

Mae bron pob un o'r plant yn trosglwyddo'n ddidrafferth o'r grwpiau oed iau i'r ystafell cyn-ysgol. Cânt gyfleoedd rheolaidd i ymweld am gyfnodau cynyddol, gydag aelod staff cyfarwydd yn gwmni iddynt os bydd angen, gan eu galluogi i ymgartrefu'n hapus ac yn gyflym. Mae plant o'r lleoliad yn symud ymlaen i amrywiaeth eang o ysgolion sydd cryn bellter i ffwrdd yn aml. Mae ymarferwyr yn helpu i wneud hyn mor hawdd â phosibl trwy gysylltu â phob ysgol a gwahodd staff i ymweld â nhw os dymunant wneud.

Mae'r bartneriaeth ag athro cymorth yr awdurdod lleol yn gadarn ac effeithiol. Mae arweinwyr yn croesawu syniadau newydd ac argymhellion ac yn addasu'r rhain i anghenion y lleoliad yn briodol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan y lleoliad nifer digonol o staff cymwys, profiadol i gefnogi dysgu'r plant yn dda. Mae ymarferwyr yn datblygu'u gwybodaeth broffesiynol yn effeithiol trwy amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi sy'n gysylltiedig â'u targedau rheoli perfformiad. Maent yn rhannu'r wybodaeth hon yn gadarnhaol yn y lleoliad i ysgogi gwelliannau. Er enghraifft, fe wnaeth datblygiad safon uchel yr ardal ddysgu awyr agored ddeillio'n uniongyrchol o sesiwn hyfforddi ar yr Ysgol Goedwig a fynychwyd gan y staff.

Mae rheolwr cyfrifon rhan-amser yn goruchwylio cyllideb y lleoliad yn effeithiol. Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth dda o'r cyllid sydd ar gael ac maent yn sicrhau bod gweithdrefnau da ar waith i gefnogi'r targedau ar gyfer gwella sydd wedi'u nodi yng nghynllun gweithredu'r lleoliad.

Mae ansawdd y ddarpariaeth ac ymrwymiad yr arweinwyr a'r ymarferwyr yn arddangos yn glir fod y lleoliad yn cynnig gwerth da am arian.

# Atodiad 1

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i’r holiadur i rieni

Mae’n dynodi’r meincnod – dyma gyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the setting. | 34 | 24<br>71%<br>79% | 10<br>29%<br>20% | 0<br>0%<br>0% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Rwy'n fodlon â'r lleoliad yn gyffredinol. |
| My child likes this setting. | 34 | 25<br>74%<br>84% | 9<br>26%<br>15% | 0<br>0%<br>0% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r lleoliad hwn. |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the setting. | 34 | 28<br>82%<br>86% | 6<br>18%<br>14% | 0<br>0%<br>0% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn y lleoliad. |
| My child is making good progress at the setting. | 34 | 25<br>74%<br>81% | 9<br>26%<br>19% | 0<br>0%<br>0% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn y lleoliad. |
| Children behave well in the setting. | 34 | 21<br>62%<br>72% | 11<br>32%<br>28% | 1<br>3%<br>1% | 0<br>0%<br>0% | 1 | Mae plant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad. |
| Teaching is good. | 34 | 19<br>56%<br>80% | 13<br>38%<br>19% | 0<br>0%<br>0% | 0<br>0%<br>0% | 2 | Mae'r addysgu yn dda. |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 34 | 23<br>68%<br>83% | 11<br>32%<br>16% | 0<br>0%<br>0% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 34 | 22<br>65%<br>76% | 10<br>29%<br>23% | 0<br>0%<br>0% | 0<br>0%<br>0% | 2 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| My child is safe at the setting. | 34 | 25<br>74%<br>85% | 8<br>24%<br>15% | 0<br>0%<br>0% | 0<br>0%<br>0% | 1 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn y lleoliad. |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs. | 34 | 18<br>53%<br>72% | 9<br>26%<br>27% | 0<br>0%<br>1% | 0<br>0%<br>0% | 7 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child's progress. | 34 | 15 | 17 | 1 | 0 | 1 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 44% | 50% | 3% | 0% | | |
| | | 63% | 31% | 5% | 1% | | |
| I feel comfortable about approaching the setting with questions, suggestions or a problem. | 34 | 22 | 11 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n teimlo'n gysurus ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r lleoliad, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 65% | 32% | 3% | 0% | | |
| | | 80% | 18% | 1% | 0% | | |
| I understand the setting's procedure for dealing with complaints. | 34 | 20 | 10 | 2 | 0 | 2 | Rwy'n deall trefn y lleoliad ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 59% | 29% | 6% | 0% | | |
| | | 65% | 31% | 3% | 1% | | |
| My child is well prepared for moving on to school. | 34 | 13 | 16 | 0 | 0 | 5 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol. |
| | | 38% | 47% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 34 | 14 | 11 | 7 | 0 | 2 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 41% | 32% | 21% | 0% | | |
| | | 63% | 32% | 4% | 1% | | |
| The setting is well run. | 34 | 24 | 10 | 0 | 0 | 0 | Mae'r lleoliad yn cael ei redeg yn dda. |
| | | 71% | 29% | 0% | 0% | | |
| | | 82% | 17% | 1% | 0% | | |

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Mary Elspeth Dyas | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |